

asesiad o'r effaith ar hawliau plant

Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.

Mae ysmegu yn effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc trwy gydol eu plentyndod, o feichiogrwydd i'r glasoed. Yng Nghymru, cofnodir bod 17% o bobl feichiog yn ysmygwyr yn eu hasesiad cychwynnol, a gwyddys bod hynny'n cynyddu risg cymhlethdodau yn ystod beichiogrwydd a thu hwnt, fel pwysau geni isel, genedigaeth gynamserol a marw-enedigaeth¹. Rydym yn gwybod nad yw'r mwyafrif o blant yn ysmegu, fodd bynnag, mae 4% o'r rhai 11-16 oed yn nodi eu bod yn ysmygwyr cyfredol, ac mae hyn yn cynyddu gydag oedran, gyda 9% o'r rhai 15-16 oed yn ysmegu ar hyn o bryd yng Nghymru². Rydym yn gwybod hefyd nad yw dod i gysylltiad ag ysmegu yn ystod beichiogrwydd, plentyndod cynnar a'r glasoed wedi'i ddisbarthu'n gyfartal ar draws cymdeithas. Mae plant a phobl ifanc o'r ardaloedd mwyaf amddifad yn fwy tebygol o lawer o ddod i gysylltiad ag ysmegu trwy gydol eu plentyndod, gan gynyddu'u niweidiau o fwg ail-law a'r risg o ddechrau ysmegu eu hunain. Mae hyn yn cyfrannu at batrymau ysmegu cenedliadol sy'n gwaethygu anghydraddoldebau iechyd.

Cenedlaethau'r Dyfodol yw un o themâu allweddol Strategaeth Rheoli Tybaco Cymru Ddi-fwg, a cheir ffocws ar ymgymryd â dull integredig o reoli tybaco er mwyn galluogi i holl blant Cymru gael plentyndod di-fwg. Mae hyn yn cynnwys gwaith yn y meysydd canlynol erbyn 2030:

- Creu amgylchedd lle bod yn ddi-fwg yw'r norm i holl blant a phobl ifanc Cymru.
- Cynyddu cyfran y beichiogrwyddau di-fwg yng Nghymru.
- Hyrwyddo plentyndod di-fwg ac amcanu at dorri patrymau ysmegu cenedliadol i gyflawni cenhedlaeth ddi-fwg.
- Gwneud bod yn ddi-fwg yn norm i atal ysmegu cymdeithasol ymhlith plant a phobl ifanc.
- Cynyddu cyfran y plant yn eu harddegau a phobl ifanc sy'n aros yn ddi-fwg drwy leihau'r niferoedd sy'n ysmegu, gan eu hannog hefyd i beidio â defnyddio e-sigaréts neu gynhyrchion nicotin eraill ymhlith plant yn eu harddegau a phobl ifanc.
- Nodi'r grwpiau o blant a phobl ifanc sydd dan risg uwch o ddechrau ysmegu, a gweithio gyda nhw i nodi ffyrdd i'w helpu i aros yn ddi-fwg.

¹ Llywodraeth Cymru. 2020. Ystadegau mamolaeth a genedigaethau: 2020. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/ystadegau-mamolaeth-genedigaethau-2020-html#adran-70306>

² Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion. 2021. Iechyd a Lles Myfyrwyr yng Nghymru: Adroddiad y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2019/20

Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr. Ar gael yn: https://www.shrn.org.uk/wp-content/uploads/2021/03/SHRN-NR-FINAL-23_03_21-cy.pdf

- Nodi grwpiau blaenoriaeth o blant a phobl ifanc sy'n ysmegu'n fwy mynych, a gweithio gyda nhw i ddeall eu rhesymau am ysmegu, a darparu cymorth targedig yn seiliedig ar dystiolaeth i roi'r gorau i ysmegu.

Bydd y strategaeth a'r cynlluniau cyflawni yn cael effeithiau cadarnhaol felly ar gyfer plant a phobl ifanc. Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar gyfer plant a phobl ifanc wedi'u nodi.

Datblygwyd y strategaeth a'r cynllun cyflawni cyntaf gan Grŵp Gweithredu'r Cynllun Gweithredu Rheoli Tybaco ac fe'u goruchwyliwyd gan y Bwrdd Strategol Rheoli Tybaco, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o ystod eang o sefydliadau. Mae effaith tybaco ar blant a phobl ifanc wedi cael ystyriaeth trwy gydol y gwaith datblygu.

Mae'r strategaeth ddrafft a'r cynllun cyflawni cyntaf yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori arnynt ar 8 Tachwedd 2021. Bydd hyn yn cynnwys cynhadledd rhanddeiliaid a gwaith ymgysylltu i gasglu barnau gan y cyhoedd, gan gynnwys grwpiau blaenoriaeth yr effeithir yn fwy arnynt gan ysmegu, fel pobl feichiog a phlant a phobl ifanc.

Eglurwch sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.

Mae'r strategaeth rheoli tybaco a'r cynlluniau cyflawni yn cefnogi'r erthyglau canlynol o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn:

- Erthygl 3 – lles pennaf y plentyn
- Erthygl 24 - hawl plentyn i'r iechyd a'r amddiffyniad gorau posibl wrth ystyried peryglon a risgiau llygredd amgylcheddol.

Mae ysmegu'n effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc trwy gydol eu plentyndod, o feichiogrwydd i'r glasoed. Yng Nghymru, cofnodir bod 17% o bobl feichiog yn ysmegwyr yn eu hasesiad cychwynol, a gwyddys bod hynny'n cynyddu risg cymhlethdodau yn ystod beichiogrwydd a thu hwnt, fel pwysau geni isel, genedigaeth gynamserol a marw-enedigaeth³. Rydym yn gwybod nad yw'r mwyafrif o blant yn ysmegu, fodd bynnag, mae 4% o'r rhai 11-16 oed yn nodi eu bod yn ysmegwyr cyfredol, ac mae hyn yn cynyddu gydag oedran, gyda 9% o'r rhai 15-16 oed yn ysmegu ar hyn o bryd yng Nghymru⁴. Rydym yn gwybod hefyd nad yw dod i gysylltiad ag ysmegu yn ystod beichiogrwydd, plentyndod cynnar a'r glasoed wedi'i ddisbarthu'n gyfartal ar draws cymdeithas. Mae plant a phobl ifanc o'r ardaloedd mwyaf amddifad yn fwy tebygol o lawer o ddod i gysylltiad ag ysmegu

³ Llywodraeth Cymru. 2020. Ystadegau mamolaeth a genedigaethau: 2020. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/ystadegau-mamolaeth-genedigaethau-2020-html#adran-70306>

⁴ Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion. 2021. Iechyd a Lles Myfyrwyr yng Nghymru: Adroddiad y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2019/20

Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr. Ar gael yn: https://www.shrn.org.uk/wp-content/uploads/2021/03/SHRN-NR-FINAL-23_03_21-cy.pdf

trwy gydol eu plentyndod, gan gynyddu'u niweidiau o fwg ail-law a'r risg o ddechrau ysmegu eu hunain. Mae hyn yn cyfrannu at batrymau ysmegu cenedliadol sy'n gwaethgu anghydraddoldebau iechyd.

Nod y cynnig hwn yw diogelu iechyd plant a phobl ifanc a hwn yw'r prif fater y mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn canolbwyntio arno.

Mae'r gwaith hwn yn helpu hyrwyddo'r deilliannau o fewn erthyglau'r CCUHP.